



## **Nid wrth ei big... ond ei gynnwys!**

Beth yn union mae'r pâl yn ei fwydo i'w gywion? *Hyperoplus lanceolatus* (llymrien fawr), *Ammodytes tobianus* (llymrien), *Gymnamodytes semisquamatus* (llymrien lefn), *Sprattus sprattus* (corbennog). Dyma farn arbenigol Sion Roberts:

Gweddol saff mai llymriaid bychain yw'r rhain *Ammodytes tobianus* oherwydd:

1. Mae nhw ym mhig y pal, prif fwyd y pal yw llymriaid.
2. Siap y pysgodyn, yn hir ac yn dennau fel slywen.
3. Mae'r gen isaf yn hirach na'r uwch, felly rhyw fath o llymrien sydd yn y ddelwedd, nid corbennog.
4. Oherwydd y lliw glas ar gefnau rhai ohonynt, gweler un o'n ffotos:  
<https://www.flickr.com/photos/gwylan/4559011590/in/album-72157603692097076/>
5. Anodd dweud or ddelwedd... ond does na ddim smotyn du nail ochor ir geg fel yn y llymrien fawr *Hyperoplus lanceolatus* gweler: <https://www.flickr.com/photos/gwylan/9062703106/in/album-72157603692097076/>
6. Anodd dweud or ddelwedd ond yn edrych bod cennau tros y holl gorff, felly ddim y llymrien lefn, *Gymnamodytes semisquamatus*.



### Larfau chwilod olew?

Des ar draws y pryfaid bach oren ar flaen gweiryng wrth fynd rownd Pig Trwyn [Aberffraw] bora ma [12 Mehefin 2015]. On i'n meddwl mai rhyw fath o ffwng oedd o iddechra, ond gweld eu bod yn symud a rhai yn taflu eu hunan i lawr i'r ddaear. Mi oeddau nhw reit ar flaen y gweiryng i ddechra (fel tasa nhw'n barod i lanio arwbath ne rywun), ond smudodd y rhai oedd heb 'neidio' i lawr ar hyd y gwiryngwedyng. Be uddan nhw dwad ?



Wil Williams

Cafwyd dau gynnig hyd yma, sef **pryfed taranau** (thrips) neu larfau **chwilod olew**

### Llewyrch solar yn Soar



*The glare observed recently [gwanwyn 2015] from the Soar installation [Ynys Môn].*

Steve Roddick

Ynni amgen ynteu llygredd golau?

### Adroddiad o Galiffornia i Gaernarfon

Mae criw ohonom yn croesawu nifer o Americanwyr i Gaernarfon o'r cychod sy'n dod i Gaerdybi. Heddiw 24 Mehefin, bum yn siarad efo cwpl o Arizona.

Dywedodd bod yna broblemau dŵr enbyd yno ac yng Nghaliffornia, a bod angen 3 i 4 blynedd o law i ddod a lefel y dŵr yno yn ôl i'w lefel arferol. Mae nhw yn edrych i mewn i gael gorsafoedd dad-halltu dŵr ar yr arfordir i gyflenwi dŵr yno. Mae 80% o boblogaeth yr UDA yn byw o fewn 200 milltir o'r arfordir. Maent eisoes yn ail gylchu rhywfaint o ddŵr.

Ifor Williams


Enbyd yn wir: os mai Newid Hinsawdd sydd yn achosi'r sychder yna bydd dad-halltu dŵr môr yn cymryd ynni-gyda'r canlyniad o FWY o CO2 yn mynd i'r atmosffer

### Cyhoeddi Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

(Rhif Elusen: 1126027).

Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter. Cysylltwch â ni trwy [lennatur.yahoo.com](http://lennatur.yahoo.com).

### O dan y chwydd wydr



Uchod mae Gwyn wedi tynnu llun agos iawn o'r cen ar adennydd y gwyfyn bwrned (ar y dde)

### Pink, penigan a'r siswrn bincio



llun: Duncan Brown

Damcaniaeth diddorol (ond gwallus fe ymddengys) yw mai tarddiad PINK yn Saesneg (ee. *Maiden Pink Dianthus deltoides*) yw ymyl "pinked" neu scolpiog petalau'r tylwyth hwn. Ond dyma ddywed geiriadur yr OED: *PINK Etymology obscure. By some conjectured to be named from its 'pinked' or jagged petals; but there is no evidence that PINK v. had the sense 'to cut or scallop the edges (of garments)' in the 16th. c., or indeed before the 19th. c. (Mae'r OED yn dyfynnu'r cyfeiriad cyntaf at 'Herbes branches and flowers, Pinkes of all sorts' yn 1573). Wel, mae hi'n stori dda beth bynnag... !!!*

Ond beth am PENIGAN, yr enw Cymraeg?

PENIGAN Bot. Unrhyw blanhigyn o'r tylwyth *Dianthus*, pinc, ceilys: flower of the genus *Dianthus*, pink. 1813 WB 226, Pennigan; *Dianthus*; - Pink. Defnydd cyntaf o PENIGAN felly oedd *Welsh Botany* Hugh Davies 1813.

Geiriadur y Brifysgol

Ai gair wedi ei fathu gan HD oedd Penigan?

**Hoffem nodi gyda thristwch marwolaeth y ffotograffydd o Lydaw Gabriel Quéré ar 8 Gorffennaf. Bu ei luniau trawiadol yn addurno ein Bwletin dros y blynyddoedd.**



## Coch y bonddu

"Uwch ben y traeth ym Mhontllyfni, degau ohonynt mewn un lle arbennig, 25 Mai 2014" ac ar y 7 Mehefin 2015: "Yma ac acw yn y gwair ger y lôn ym Mhontllyfni, ac un ar y traeth".



Duncan Brown


Roedden nhw yn niferus hyd y 20 Mehefin ar hyd yr arfordir eleni. Hwyrach nag arfer eleni? Gynharach y llynedd? Dyma [14 o gofnodion](#) yn y Tywyddiadur. Mae pysgotwyr ar draws Prydain yn adnabod hwn fel *cock-a-bondy* a phethau tebyg:

*Thursday June 17th. 1875: .. the day was mild, I had great hopes of catching a Sewin. But suddenly a very heavy fall of rain came on: which caused the river to rise gradually: and I then fished the small pool opposite Dolserau farm; and there [stuck] in a Sewin of about 4lb: but having only a trout rod and light tackle, he gave me a regular half hours job: the river rising rapidly and the stream being very strong. The fish was well hooked, but having no landing net, I thoroughly [mauled?] him in my hands, and he broke away much to my disgust. The river came down in heavy flood afterwards, and I had good sport with a worm at Dolgun pool and the meeting of the waters:...*  
*The sewin was hooked on a large "coch-y-bonddhu [bonddu]".*

*"Sporting Diary" CEM Edwards Dolserau (Archifdy Dolgellau)*

Dyma beth ysgrifennodd TA Coward union ganrif yn ol yn y [Manchester Guardian, 25 Mehefin 1915](#) am y pryf hwn yn honedig yn poenydio milwyr .

## Hanes pysgodfa Llyn Mwyngil



dyffryn Talyllyn 25 Ion 1978 DB

Buom yn ffodus iawn y ddiweddar i dderbyn holl gofnodion pysgota Llyn Mwyngil, Talyllyn o 1989 hyd 1998 yn rhodd gan

y perchen Mr Bob Davies. Mi fydd gofyn cryn ddyfalbarhad i weithio trwy'r cofnodion a'u rhoi yn y Tywyddiadur (gwirfoddolwyr rhowch floedd!). Cafodd peth dadansoddi ei wneud eisoes; dyma ran o grynodedb o'r flwyddyn 1989 (mwy [yma](#)):

*1989 was an excellent season for brown trout but disastrous for salmon and sea trout because of the effects of one of the worst droughts on record. Virtually no rain fell from the start of the season on 1st April to the ending on 17th October and migratory fish were unable to run the Afon Dysynni into the lake other than on one small spate in September. The bright, hot, weather throughout the summer period made fishing conditions difficult for brown trout in the absence of a good ripple but some anglers fishing long leaders of 3 lbs strength and small (size 14-16) imitative wet flies did consistently well! An encouraging feature was this increased use of the dry fly and of dapping to producē some good catches under difficult conditions of either no wind or too much wind.*

## Ymosodiadau Hitchcockaidd



Mewn cyfnod o dros ddeng mlynedd ar hugain o redeg - ar ffyrdd, ffriddoedd a mynyddoedd, ddeuthum i erioed ar draws neb oedd wedi cael y profiad o ymosodiad gan aderyn. Yna, fel rhywun yn disgwyl oesoedd am ddybyl decar, dyma bedwar yn troi i fyfyn gyda'i gilydd.

1. Bwncath - yn ymosod ar dri rhedwr gwahanol ar Lon Ty'n Llwyn, Pentir yn ystod y pythefnos diwethaf [ebost dyddiedig 24 Mehefin 2015, sef tymor nythu'r bwncath]: yn cylchu uwch eu pen ac yna'n ymosod o'r cefn, gyda'i grafangau am y gwegil a thu ol y pen.

2. Gwylan - yn ymosod ar redwr ger yr Amlosgfa ym Mangor - a hynny ar fwy nag un achlysur. Os oedd yn cerdded heibio - dim problem, ond doedd fiw iddo redeg! Unrhyw eglurhad? **Dafydd Whiteside Thomas**

Dyma [un eglurhad](#) am y bwncath gan Gwyn Williams yn yr Oriol: Dwi'n cofio gweld eitem newyddion. Roedd na fwncath yn ymosod ar dad Bryn Terfel pob tro yr ai i gae ar ei fferm. Roedd o'n taro ei het o.

Ac uchod, (o rhywle!) gan Owain Elias ymosodiad o ddifri gan wylan. Mae pobl Gaernarfon yn hen gyfarwydd a hyn!)

## Pry hofren yn Llanbér



Tynnwyd y llun yma yng ngardd gorsaf Gilfach Ddu yn stesion tren y llyn, Llanberis.

**Hefin Owen**

Mae Hefin yn gyfrannwr lluniau cyson i Llên Natur erbyn hyn. Math o bry hofren *Eristalis* ydi hwn ym marn y Golygydd



## Marciau-cwpan o Sir Fon

Mae Steve Roddick yn meddwl ei fod o wedi dod o hyd i farciau cwpan ym Mon.

*At the Tai Moelion Solar Farm today [Môn, Mehefin 2015], and in the middle of the field I found a feature I think may be a "Cup Marked Rock". I checked the [map](#)*

*on the Historic Wales web site:-*



*There are many records in the area but none referring to Ring Marked Rocks. They bare a remarkable similarity to the marks found on the Clynnog Fawr burial chamber cap stone.*

Felly beth yw "marciau cwpan"? Meddai Steve: There are many theories!

[https://en.wikipedia.org/wiki/Cup\\_and\\_ring\\_mark](https://en.wikipedia.org/wiki/Cup_and_ring_mark)

*I don't suppose anyone knows for sure. May be they just ground grain in the rock and formed hollows but in some places they are more ornate with rings, Ring & Cup Marks. In North Wales they are rare and only has Cup Marks are known.*

## Cnocell werdd ieuanc



Owen Rowlands:  
Chwilog tua 22  
Mehefin 2015.

*Dyffryn 29 Hydref  
1921: Painted Lady also  
on Nov 1. 3 Red admirals  
Oct 31 Stonechats  
alarmed on seeing me, as  
if they had young...very  
few linnets....Nov 3 no  
migrants hitherto at night  
Noon Corsygedol. Green  
woodpecker feeding &  
digging in moss on  
ground, also next day  
singing*

Dyddiadur di-enw

Mae'r cyfeiriad at balu mwsogl mae'n debyg yn enghraifft o hoffter yr aderyn hwn o forgrug (Gol.)

## Yr offeiriad du



llun gan Duncan Brown

Tynnwyd y llun 19 Mehefin 2015 ger Eglwys Pistyll, Penllŷn. Chwilen yr offeiriad du sy'n **poeri gwaed** (gweler yr Oriel dolen isod am hen rigwm...)

*Timarcha tenebricosa is monophagous, the larva feed exclusively on bedstraws [briwydd], especially species with tender leaves (Galium verum, Galium mollugo). Eggs are laid in spring on bedstraws. Larvae are quite large (up to 20 mm) blue-black in color. Pupa overwinter.*

**Wikipedia**



y diweddar Tom Jones

Tyf hon [y briwydden bér: ar y dde] yn Coed Trefan ar ochor afon Dwyfor

## Y forwyn wych



*We spent a few days in Little Baddow, Essex [Mehefin 2015]. The canal and ponds there were alive with damsel flies.*

*John Bundock*

*morwyn wych neu Agrion Wych (Calopteryx splendens) Banded Demoiselle*

**Rhestr Gweision Neidr. Cymdeithas Edward Llwyd**

### Tom Jones

Yn ystod y mis hwn fe gollwyd Tom Jones, cyfaill hynaws, brwdfrydig a gwybodus, a chadeirydd Cymdeithas Edward Llwyd. Roedd Tom yn gyfaill mawr i brosiect Llên Natur nid yn unig yn rhinwedd ei swydd, ond hefyd fel gwirfoddolwr cyffredin yn llwytho cofnodion pob dydd bron. Dyma chwilio am ei enw yn y Tywyddiadura chael dim llai na 7,900 o gofnodion dan ei enw! Diolch Tom



## Neidr gantroed



Yn gardd fi ([yn Llanberis, Mehefin 2015?]) ar ôl i fi symyd planhigyn.

Hefin Owen

Gofnwyd i John Bratton yr entomolegydd all hwn fod yn rhywbeth o'r enw *Lithobius forficatus*? Atebodd "Its certainly a *Lithobius*".

## Jinsan heb eirin tagu eleni !



Mae'r chwydd eirin yn rhemp ar ffrwythau'r drain duon - yn Ngwynedd a Mon o leiaf.

## Carreg fedd ym mynwent Pistyll, Llŷn

*To the memory of Griffith Son of William Williams of Cefrhengwrt in the Parish of Llanwnda by Dorothy his wife who drowned [sic] at Porthynllaen [sic] Bay March 27 1818 Aged 16 years*

Trallodau beiau bywyd ni welais  
Na wylwch o'm plegyd  
Wyf iach o bob afiechyd  
Ac yn fy medd gwyn fy myd

Roedd Mawrth 1818 yn gyfnod ansefydlog iawn: ee. Prydain 23 Mawrth 1818; 22-23 March: severe gales, trees damaged.

Kington, J. (2010) *Climate and Weather Collins*

Gellir dychmygu bod Griffith druan wedi mentro cyn i'r môr ymdawelu.

## O dan y chwydd wydr



Dyma ddiferyn bach o wlith ar frigell y clafrllys.

Gwyn Williams

## Planed Gwener a lau ar y cyd



Mehefin 30, 10.30 p.m. Alun Williams  
Cafwyd llun tebyg hefyd gan Ifor Williams. Meddai Ifor: "y blaned lau a Gwener yn agos at eu gilydd nos fawrth Mehefin 30 2015. Byddent ddim mor agos a

hyn am tua 150 mlynedd eto". Tynnodd Ifor ei lun yntau fel roedd hi'n tywyllu am 22:55. Mwy [yma](#).

## Y Balmoral ar ei ffordd i Lerpwl (dyddiad)

Ydi twrbeinau gwynt yn creu ynteu'n arafu'r gwynt. Trafodaeth [yma](#).

Gareth Pritchard



## Y Gog a'i lindysyn blasus



ynghwm Dolgain, Trawsfynydd, 27 Mehefin15 Keith O'Brien

Mae cogau yn arbenigwyr ar fwyta lindysyn blewog fel [yr wylun](#).



## Les Ann



Moron gwyllt yn tyfu 19 Mehefin 2015 ym Mhorthdinllaen. Mae'r smotyn yn y canol yn rhoi yr enw *Queen Anne's Lace* yn yr America.

**Y stori yw** mai dafn o waed y frenhines yw'r smotyn, ar ôl iddi bigo ei hun â'r nodwydd wrth wnïo.

Duncan Brown

## Rhwydo ar y Fawddach yn Llanelltyd 1879

*Tuesday, July 15, 1879 Tom Sheriff and I went to the Big Pool this morning and bathed. After breakfast we went into Dolgellau and attended Petty Sessions. Business being soon over, we started to Llanelltyd to see the netting, but on the road we met Hugh Jones returning with his cart. He had 60 fine Grilse and Sea trout and a salmon*

Dyddiadur Hela CEM Edwards, Dolserau, Dolgellau

Dyma lun o **helfa eog yn Nghaernarfon** yn 1933 (diolch i Tony Lovell). Mae'r pygodfeydd hyn wedi hen ddarfod a bod.




## Cedryn ai fysedd cwn



Bysedd y cwn, hen fferndy Cedryn, (Cedryn?), Cwm Eigiau 10 Gorffnaf eleni

Alun Williams

Dim son am fysedd cwn ym **mis Mehefin llynedd.**



## Gleision serennog, Pen y Gogarth

Dyma'r **glesyn serennog**, is rywogaeth *caernensis*, Pen y Gogarth, Llandudno, Gorffennaf 5ed, roedd tua 100 ohonynt o fewn canllath. Alun Williams

## 2015: blwyddyn y palmwydd?



Yn 2011 'roedd Duncan yn holi am goed palmwydd - sut a ble 'roeddynt yn hadu'n wyllt.

Anfonais **lun bryd hynny** o balmwydd wedi egino ar ochr y

ffordd yn Llandudno gan ychwanegu bod drudwyod, bob blwyddyn yn mis Hydref, tua cant ohonynt ar y tro yn glanio ar y coed palmwydd ac yn 'sbydu'r hadau. Oes, mae yna ychydig o hadau wedi egino bron bob blwyddyn, ond mae rhywbeth rhyfeddol wedi digwydd eleni. Yn ystod y pythefnos aeth heibio mae nifer fawr o hadau palmwydd wedi egino. 57 oedd y cyfrif heddiw! (Gorffennaf 6ed) Ar ol byw yn y ty yma am 35 mlynedd, ac heb weld dim tebyg o'r blaen, ydi hyn yn brawf pellach o gynhesu byd eang?

Gareth Pritchard

Cliciwch am y gwelwch: palmwydd **yn yr eira** 2011, palmwydd **yn y gwyllt** 2011, a phalmwydd **dan raib mwyalchen!**

## Cor o liw



Canfuwyd yr un gwyn hwn ar lethrau Moel Llanfair a Moel Lech, ddim yn bell o Lanarmon yn lal.

Dylan Jones

Roeddau ni'n cerdded wythos yma [tua'r 25 Mehefin] gerllaw Dinas Emrys, a mi welon ni nifer fawr o fysedd cwn, ac yn eu mysg, 2 o rai gwynion. Welis i ddim

rhai gwynion yn y gwyllt o'r blaen. Be sy'n achosi hyn?


Englyn Gareth Neigwl i fysedd y cwn:

Menyg y dyddiau mwynion, hen hafau  
Ein hifanc ddifyrion  
A chloch mewn bysedd cochion  
Yn gor o liw ger y lon

Bethan Jones

## Brithribin w-wen

Gorffennaf 16, gwarchodfa Pool Park, Rhuthun. Wedi chwilio am y glöyn byw yma ar sawl achlysur heb lwyddiant ond ei weld y prynhawn 'ma am y tro cyntaf. Alun Williams



## Cofio hyn? Ffenomenon yr 20g?



Beth ddigwyddodd i'r berthynas rhwng y titw a'r botel lefrith? Tynnwyd y lluniau hyn mae'n debyg yn Nhalsarnau Meirionnydd yn y 1970au. Pryd welsoch CHI hyn yn yn digwydd ddiwethaf - neu gyntaf efallai! Ai tranc y botel, ynteu tranc yr hufen yn codi yn y llefrith syn gyfrifol am ddifflaniad y lleidr-ditw. Neu efallai bod y cast yn dal i fodoli yn y tir - yn rhywle? Mwy yma (tud 2)

Cafodd y ffenomenon ei ddisgrifio gyntaf ger Stoneham, Southampton yn 1921 pan welwyd titw yn agor caead carbod wedi ei gwyro, ac yfed y llaeth (Mwy yma *The Opening of Milk Bottles by Birds*, Fisher & Hinde, British Birds 42 :11).

Caead ffoil arian sydd yn y llun uchod:

*In the United Kingdom, the aluminium foil tops on glass milk bottles are normally coloured: Gold = Channel Islands milk (with a slightly higher fat content than regular milk), Silver = Whole milk (unhomogenized), Red = Homogenized whole milk, Red & Silver stripe = Semi-skimmed milk, Dark Blue & Silver stripe = Skimmed milk, and a more recent addition of Orange = 1% fat milk, Organic milk follows different colour schemes: Light Blue = Whole milk, Green = Semi-skimmed milk, Green & Silver stripe = Skimmed milk.*

Felly mae'r titw hwn yn mynd am yr hufen sydd wedi codi i'r wyneb. Mwy yma am hanes poteli llefrith

## Adnabod cynnwys pellenni (3)


### Penglogau

Chwith uchaf: llug cyffredin oddiuchod

De uchaf: llygoden bengron y gwair


chwith isaf: llug cyffredin oddi-isod

de isaf: llygoden bengron oddi-isod



## Yr Efyngyl yn ôl Tymheredd y Pridd

Yn y rhifyn diwethaf (tud. 8) mi welson ni gymhariaeth rhwng gwanwyn 2014 (gwanwyn cynnar) a gwanwyn eleni (hwyr) yn ol crynhoad tymheredd cyfartalog ('t-sum') yr awyr. Dyma fesur arall o ddyfodiad gwanwyn - yn ol tymheredd y pridd! Yr hyn sy'n ddi-ddorol yw natur y mesuriad hwn - mae o yn ei hanfod yn grynhoadol, hynny yw, mae'r pridd yn y gwanwyn yn ychwanegu gwres ond ddim yn ei golli (ac fel arall yn yr hydref). Felly fel y gwelwn yn ngraff ein meteorolegydd isod, mae'r mesuriadau yn dilyn yr un patrwm crynhoadol heb unrhyw fath o crynhoi mathemategol. Ac mae'r



gwahaniaeth rhwng gwanwyn 2014 a 2015 yn glir yw weld o'i gymharu a chyfartaledd yr un mesuriadau yn y blynyddoedd 2002-2015.

## Hybu astudaethau'r dylluan ym Môn



Copi o hen sleid gyda'r capsiwn "Stondin TW [Tylluan Wen] Primin Môn" ac wedi ei labelu gyda'r dyddiad "Aug 98 (neu 99)"

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Arddangaosfa oedd hwn yn hybu gwaith arolwg y Dylluan Wen ym Môn o fewn adeiladwaith ffug ar lun hen feudy.



## Mantell dramor Awstralia



Y llun uchod o **iâr fach dramor?**, neu **berthynas agos** iawn iddi yng Ngerddi Botanegol Canberra, 31 Gorff 2014. Ydy'r iâr fach yn cyrraedd cyn belled? Os ydy' hi mae'n siwr o fod â'r dosbarthiad ehanga o unrhyw Lepidopteran.

Twm Elias

**...o'i chymharu a un ni**  
Tebyg, ond yn wahanol!



Ilun Eifion Griffiths

## Buchod cwta haf poeth 1976... MWY

*...The reasons for the vast swarms of ladybirds seen all over south east England over the past few weeks [Gorffennaf 1976] are complicated but the weather has certainly played a large part. ... the hot, dry summer has meant that plants matured several weeks earlier than usual, leaving the aphids without food. Professor A Dixon [UEA]... saw the aphid population suddenly collapse in late June and early July helped along by the large number of ladybirds but probably mainly because the dry leaves and stems of dying plants provide poor food for the greenfly. The hungry ladybirds are now dying in large numbers and few will be able to breed to produce the generation that normally goes into hibernation in late September and October. The ones that go into hibernation this year are also less likely to survive the winter in their debilitated state. Even if the rain comes to produce some more green leaves it is probably too late now for a generation of well-fed ladybirds to be produced before the winter. So the ladybird may be extremely rare next spring. Fortunately some kinds of aphids also may be extremely rare.*

Times 25 Aug. 1976

## Dau gudyll



...yr uchaf yn Symonds Yat, Lloegr a'r isaf yn Tidinbilla, Canberra Awstralia - er cymhariaeth.


*I've included two hovering birds for comparison of the British and Australian birds. Both have the fan tails with black tips. Ours nest around Canberra in October/November.*

John Bundock

## Magien ar y Gogarth



Roedd y tan bach diniwed ar lethrau gorllewinol y Gogarth c29 Mehefin 2015. Marc Hughes  
O Geiriadur yr Academi:  
glow-worm n. Ent: pryf (m)  
tân(pryfed tân), magïenf(magiïod)  
tân bach diniwed m(tanau bach diniwed) magïen y golau, N.W: occ:  
cannwyll bach las f, kannwyll gorff



A'r Tylwyth Teg yn  
dawnsio'n sionc  
O gylch magïen  
Pen y Bonc

## Y Fawddach o dir Caerdeon



Copi o hen sleid gyda'r teitl "Shore of Mawddach near Caerdeon Hall from 654181 14 May 1977 SH61"

Duncan Brown

Dyma gyfle i ail-dynnu hen lun i weld sut mae llustyfiant y gors heli wedi newid. Gwirfoddolwyr?

## Nodyn i ddarlennwyr fersiwn bapur y Bwletin:

cofiwch bod y geiriau mewn print coch yn ddolenni "byw" ac yn arwain at bob math o wybodaeth bellach yn fersiwn y we. Dydi'r gwasanaeth hwn ddim ar gael wrth gwrs yn y fersiwn bapur. Gol.